# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Town Hall
Earl Road
Mold
Flintshire
CH7 1AB

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffộn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**www.moldtowncouncil.org.uk**

**Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug**

19eg Ebrill 2024

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 24ain Ebrill, 2024** yn Neuadd Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant. Bydd ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

**CYFRANOGAETH Y CYHOEDD**
Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:
- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud

penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy’n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU’R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau’r Maer

**4. COFNODION**

4.1 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd ar $27^{ain}$ Mawrth 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar $27^{ain}$ Mawrth 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar $8^{fed}$ Ebrill 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar $8^{fed}$ Ebrill 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.5 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar $17^{eg}$ Ebrill 2024 (ynghlwm) a’u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. TREFNIADAU AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL 2024 AC ENWEBIAD Y MAER 2024/25**

Cytuno’n ffurfiol y bydd y Cyfarfod Blynyddol yn digwydd am 6pm ar Ddydd Mercher, $8^{fed}$ Mai 2024.

Ystyried enwebu’r Maer yn y Cyfarfod Blynyddol, i’w gynnal ar $8^{fed}$ Mai 2024, ar gyfer blwyddyn nesaf y Cyngor.
Nodi y bydd cyfarfod cyntaf blwyddyn newydd y Cyngor ar $22^{ain}$ Mai 2024 ac nid $29^{ain}$ Mai 2024.

**6. GOHEBIAETH**

**Nodi**’r ohebiaeth ddilynol a dderbyniwyd a **chytuno** lle bo raid ar y camau gweithredu sy’n angenrheidiol:

(i) Llythyr a dderbyniwyd gan elusen canser plant.
(ii) E-bost a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru – Nodi’r Dyddiad.

## 7. ADRODDIADAU SWYDDOGION

**Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol (ynghlwm).

## 8. RHESTR WEITHREDU

**Adolygu'**r Rhestr Weithredu barhaus o gyfarfodydd Cyngor y Dref. **Cytuno** i ddileu unrhyw gamau gweithredu sydd heb eu gwneud ac nad oes eu hangen mwyach a thynnu'r camau gweithredu a gwblhawyd ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor.

## 9. HYFFORDDIANT TAW I STAFF A CHYNGHORWYR

**Ystyried** y wybodaeth a dderbyniwyd am Hyfforddiant TAW a'r gost sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant (ynghlwm)

## 10. CYNNIG A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORYDD HAYDN JONES

Hoffai'r Cynghorydd Haydn Jones gyflwyno CYNNIG i ganiatáu i Gyngor Tref yr Wyddgrug allu gwrthod, heb ragfarn, unrhyw bobl sy'n sefyll dros unrhyw blaid wleidyddol mewn etholiadau sydd ar y gweill, rhag cymryd rhan fel gwirfoddolwyr mewn digwyddiadau gan Gyngor Tref yr Wyddgrug.

Mae angen **nodi'r** adroddiad archwilio interim a gwblhawyd ym mis Chwefror 2024 (ynghlwm).

## 11. CYNNIG A DDERBYNIWYD GAN Y CYNGHORYDD SARAH TAYLOR

Mae'r Cynghorydd Sarah Taylor yn cynnig bod y Pwyllgor Cyllideb yn cael ei chwalu a bod pwyllgor newydd o'r enw Pwyllgor Cyllid yn cael ei ffurfio.

Cynigiais chwalu'r pwyllgor cymorth ariannol a chynnwys gwaith y panel hwn yng ngwaith y Pwyllgor Cyllid sydd newydd ei ffurfio.

Cynigiais fod y Pwyllgor Cyllid newydd yn cyfarfod yn chwarterol.

Dyma'r rhesymau am y cynnig hwn: -

Dim ond unwaith y flwyddyn y mae'r pwyllgor cyllideb presennol yn cyfarfod, a hynny ar adeg gosod y gyllideb. Dydy hynny ddim yn ddelfrydol oherwydd mae blwyddyn lawn rhwng y cyfarfodydd a dylid monitro'r gyllideb yn rheolaidd, er mwyn monitro'r gwariant o fewn y flwyddyn yn erbyn y gyllideb.

Dim ond dwywaith y flwyddyn y mae'r panel cymorth ariannol yn cyfarfod a bydd cynnwys ei waith yn y Pwyllgor Cyllid sydd newydd ei ffurfio yn galluogi i grwpiau cymunedol dderbyn ystyriaeth i'w ceisiadau bedair gwaith y flwyddyn yn lle dwywaith fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Bydd y cynnydd yn amlder cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid yn cael ei wrthbwyso i raddau mawr gan y ffaith nad oes angen cynnal cyfarfodydd y panel cymorth ariannol bellach. Mae hyn yn bwysig wrth ystyried y nifer o gyfarfodydd sy'n digwydd gyda'r nos a'r llwyth gwaith i'n gweithwyr cyflogedig.

**12. LLEOLIAD Y CAMERA CYLCH CYFYNG**

Cytunwyd yng Nghyfarfod Cyngor y Dref ym mis Hydref 2023 i brynu camera CCTV newydd; prynwyd y camera bellach. Mae angen **trafod** a **chytuno** ar leoliad y Camera CCTV newydd.

**13. CAE KENDRICK'S – COST MEINCIAU NEWYDD**

**Trafod** y costau a dderbyniwyd gan Gyngor Sir y Fflint i osod dwy fainc newydd yng Nghae Kendrick's.

**14. POLISI HYFFORDDI A CHYNLLUN HYFFORDDIANT NEWYDD**

**Nodi**'r Polisi Hyfforddi a Chynllun Hyfforddiant drafft ar gyfer Cyngor Tref yr Wyddgrug, a **chytuno** i'w mabwysiadu.

**15. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

**Nodi**'r adroddiad sydd ynghlwm.

**16. CYFRIFON/TALIADAU**

**Cymeradwyo'r** amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 10, yn nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â grymoedd cynghorau lleol.

**17. SWYDDI GWAG**

**Nodi'r** sefyllfa o ran cynrychiolwyr ar gyrff allanol, panelau a phwyllgorau'r Cyngor.
CDR – 2 swydd wag.
Cynllunio – 1 swydd wag.

**18. EITHRIO'R CYHOEDD A'R WASG**

**Ystyried** eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod er mwyn gallu trafod materion cyfrinachol.

**19. RHAN 2 – MATERION STAFFIO**

**Ystyried** yr argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Personél.

**NODWCH:**
Mae caniatâd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond ni chânt siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Cyllid).

**CYFARWYDDIADAU ZOOM**

**Ymuno â'r Cyfarfod Zoom**
**https://us02web.zoom.us/j/81441626690?pwd=bWk4ODRBb0F3c1JyR25UMldCaUdTZz09**

**ID y Cyfarfod: 814 4162 6690**
**Cyfrinair: 801316**